**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Health and Social Care Committee**

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales

**Lesley Griffiths AC AM**
Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Gwenda Thomas AC AM**
Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol

22 Hydref 2012

Annwyl Oll,

**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2013-14**

Diolch yn fawr am fynychu cyfarfod y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 17 Hydref i drafod cynigion y Llywodraeth ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2013-14.

Rydym wedi ysgrifennu at y Pwyllgor Cyllid er mwyn darparu gwybodaeth ar gyfer ei waith craffu ar y gyllideb ddraft. Atodaf gopi o'r llythyr er eich gwybodaeth. Cyhoeddir y llythyr ar ein gwefan hefyd.

Nodwch bod ein llythyr at y Pwyllgor Cyllid yn dynodi cyfres o weithredoedd y byddwn yn croesawu gan y Llywodraeth er mwyn ein helpu i wella ein craffu ariannol. Edrychaf ymlaen at dderbyn eich hymateb i'r pwyntiau yma maes o law.

Diolch unwaith eto am eich cymorth i'r Pwyllgor wrth i ni ymgymryd â'r dasg o graffu ar y gyllideb ddrafft.

Cofion gorau,

Mark Drakeford

**Mark Drakeford AC AM**
Cadeirydd – Chair

*Wedi'i atodi: Llythyr at y Pwyllgor Cyllid*

Ffôn / Tel: 029 2089 8403
E-bost / Email: HSCCommittee@wales.gov.uk
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Health and Social Care Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Jocelyn Davies AC AM**
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

22 Hydref 2012

Annwyl Jocelyn,

**Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2013-14**

Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar ar 17 Hydref gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog dros Blant a Gwasanaethau Cymdeithasol, a honno'n ymwneud â chyllideb ddrafft y Llywodraeth. Roedd ein gwaith craffu'n canolbwyntio ar faterion a oedd yn effeithio ar bortffolio'n pwyllgor, ac mae'r prif gasgliadau wedi'u hamlinellu yn y llythyr hwn a chânt eu cyhoeddi ar ein gwefan.

Gobeithio y bydd ein sylwadau'n cynorthwyo'ch Pwyllgor i graffu'n gyffredinol ar y gyllideb ddrafft. Rydym wedi ceisio dosbarthu'r prif faterion yn ôl y pedair egwyddor sy'n sail i waith craffu ariannol da: fforddiadwyedd, blaenoriaethu, gwerth am arian a phroses y gyllideb.

**1. Gwybodaeth**
*(Egwyddor: proses y gyllideb)*

Eleni, roedd papurau'r gyllideb, a'r dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog dros Blant a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gliriach ac wedi'u cyflwyno'n well. Er hynny, rydym yn dal i gredu bod angen darparu rhagor o wybodaeth i sicrhau bod y Pwyllgor yn gallu craffu'n drylwyr ar ddyraniadau'r Llywodraeth.

Yn 2013-14, caiff £5 biliwn ei ddyrannu i "Gyflenwi Gwasanaethau Craidd y GIG" - mae hyn yn cyfateb i 90 y cant o Brif Grŵp Gwariant Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant. Er mwyn medru craffu'n effeithiol ar gynlluniau ariannol y Llywodraeth, rydym yn credu bod angen gwybodaeth fanylach na'r hyn a ddarparwyd i'r Pwyllgor.

Er enghraifft, er inni gael gwybod bod y pwyslais wedi symud o ddarparu gofal mewn lleoliadau sylfaenol yn hytrach na mewn lleoliadau eilaidd, nid

Ffôn / Tel: 029 2089 8403
E-bost / Email: HSCCommittee@wales.gov.uk

oeddem yn gallu nodi'r newidiadau cyllidebol perthnasol gan nad oedd y Pwyllgor wedi cael digon o fanylion. Gallai'r papurau gweinidogol adlewyrchu blaenoriaethau'r Llywodraeth yn y maes hwn yn well ac egluro sut y caiff adnoddau eu dyrannu'n unol â'r blaenoriaethau hyn.

Rydym yn croesawu'r atodiad i bapur y Gweinidog sy'n dangos crynodeb o'r symiau sydd wedi'u trosglwyddo o'r naill gam gweithredu i'r llall. Mae'n dal yn anodd, fodd bynnag, i'r Aelodau olrhain gwybodaeth am y symiau a gafodd eu symud o'r naill linell wariant i'r llall mewn meysydd pwysig. Mae enghreifftiau yn y gwaith o graffu ar y gyllideb ddrafft eleni'n cynnwys ariannu gwaith a dargedwyd i ddiogelu iechyd ac imiwneiddio, ac addysg a hyfforddiant.

2. **Ariannu Byrddau Iechyd Lleol**
   *(Egwyddor: proses y gyllideb)*

Nododd y Pwyllgor bryderon am lefel gyffredinol y cyllid a'r dyraniadau unigol i'r Byrddau Iechyd Lleol wedi inni ystyried cyllideb ddrafft 2012-13 y llynedd. Roedd agweddau ar y model presennol a ddefnyddir i ariannu'r Byrddau Iechyd Lleol yn dal i beri pryder inni, yn enwedig o gofio bod yn rhaid i'r Byrddau Iechyd Lleol fantoli'r gyllideb o'r naill flwyddyn i'r llall tra bo'r cynlluniau pum mlynedd i ad-drefnu gwasanaethau'r Byrddau Iechyd Lleol a chynlluniau tair blynedd Llywodraeth Cymru yn cael eu datblygu.

Rydym yn croesawu'r ffaith bod y Gweinidog wedi'n sicrhau bod trafodaethau'n mynd rhagddynt ynglŷn â'r gofyniad statudol i'r Byrddau Iechyd Lleol fantoli'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth, fodd bynnag, am y dewisiadau posibl a'r amserlenni perthnasol ac, yn benodol, pryd y mae'r Llywodraeth yn rhagweld y bydd angen newidiadau deddfwriaethol i ddiwygio'r ddyletswydd statudol bresennol.

3. **Rhagdybiaethau'r gyllideb a chynlluniau i roi ymrwymiadau'r Llywodraeth ar waith**
   *(Egwyddor: blaenoriaethu)*

Yn ystod proses y gyllideb ddrafft y llynedd, aethom ati i danlinellu'n pryderon ynghylch rhoi blaenoriaethau'r Rhaglen Lywodraethu ar waith a'u heffaith ar gylchoedd cynllunio cyllidebau yn y dyfodol. Yn ystod ein sesiwn graffu eleni, dywedodd y Gweinidog wrthym y bydd modd rhoi blaenoriaethau'r Llywodraeth ar waith o fewn y dyraniadau a amlinellwyd ar gyfer 2013 – 14.

Mae'r Pwyllgor yn parhau i bryderu am allu Llywodraeth Cymru i roi ymrwymiadau ei Rhaglen Lywodraethu ar waith ym maes iechyd a

gwasanaethau cymdeithasol, o fewn y dyraniad presennol. Yn benodol, ac fel enghreifftiau eglurhaol, byddem yn croesawu esboniad pellach o'r canlynol:

- y costau sydd ynghlwm wrth yr archwiliadau iechyd arfaethedig i bobl dros 50oed - a'r canlyniadau amcanol;
- sut y caiff y gwariant presennol ei ad-drefnu, fel sy'n angenrheidiol yn ôl tystiolaeth y Gweinidog, i roi cynlluniau ar waith i ymestyn oriau agor meddygfeydd.

Wrth i'r gost o roi'r ymrwymiadau hyn ar waith ddod yn gliriach, byddai'r Pwyllgor yn falch pe bai'r Llywodraeth yn rhoi gwybod iddo am unrhyw gynnydd a wneir ac am unrhyw benderfyniadau i ad-drefnu adnoddau.

**4. Cynlluniau cyfalaf a gwariant**
*(Egwyddor: blaenoriaethu)*

Rydym yn croesawu'r £29m o arian cyfalaf ychwanegol sydd ar gael o dan y dyraniadau a gedwir yn ganolog ar gyfer cynlluniau cyfalaf a seilwaith yn ystod 2013-14. Nid ydym yn deall, fodd bynnag, y drefn ar gyfer dyrannu'r £188m sy'n weddill yng ngham gweithredu Cyfalaf Cyflenwi Gwasanaethau'r GIG. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o fanylion am y modd y caiff y cyfalaf sy'n weddill ei ddosbarthu gan adran y Gweinidog i brosiectau unigol a hoffai wybod pa feini prawf a ddefnyddir i wneud hynny.

Roedd y Gweinidog a'i swyddogion yn hyderus bod y dyraniadau cyfalaf presennol yn ddigonol i roi'r cynlluniau gwasanaeth presennol ar waith. Byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth i ddangos bod y trafodaethau parhaus ynghylch ad-drefnu gwasanaethau wedi'u seilio ar amcanestyniadau o wariant cyfalaf cysylltiedig neu angenrheidiol, wrth i'r broses fynd rhagddi. Rydym yn credu y dylai'r Gweinidog sicrhau bod y broses ad-drefnu'n cynnwys gwerthuso ac asesu gofynion cyfalaf yn rheolaidd o fewn ac ar draws ffiniau'r Byrddau Iechyd Lleol.

**5. Cronfa wrth gefn**
*(Egwyddor: blaenoriaethu)*

Yn ystod ei thystiolaeth cyfeiriodd y Gweinidog at 'gronfa wrth gefn' o oddeutu £50m yn ei phortffolio. Byddem yn hoffi gwybod:

- a fydd y gronfa hon yn parhau yn 2013 - 14, ynteu ai dim ond yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol y bydd yn bod;
- beth yw diben cyffredinol y gronfa;
- beth yw ei lleoliad yng nghyllideb y portffolio fel y'i cyhoeddwyd;

- pam y defnyddiwyd cronfeydd canolog wrth gefn, yn hytrach na'r gronfa hon, i ddyrannu rhagor o arian i'r Byrddau Iechyd Lleol yn y gorffennol.

6. **Clustnodi**
   *(Egwyddor: blaenoriaethu / gwerth am arian)*

   Yn ystod ei thystiolaeth, fe'n sicrhawyd gan y Gweinidog fod prosesau monitro dibynadwy ar waith ar gyfer cyllidebau sydd wedi'u clustnodi. Dywedodd hefyd na nodwyd unrhyw danwariant yn y gyllideb a glustnodwyd ar gyfer iechyd meddwl.

   Byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o fanylion am y prosesau monitro hyn ynghyd â thystiolaeth gadarn, ar ffurf ffigurau, yn cymharu cyllidebau a glustnodwyd â gwir wariant dros y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf.

7. **Cydweithredu rhwng iechyd a gwasanaethau cymdeithasol a chyllidebau cyfun**
   *(Egwyddor: gwerth am arian)*

   Rydym yn croesawu'r ffaith bod y Gweinidogion yn ystyried ei bod yn bwysig i iechyd a gwasanaethau cymdeithasol gydweithredu a nodwn y bwriad i greu sylfaen ddeddfwriaethol i hyn yn y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol arfaethedig. Rydym yn croesawu hyn yn arbennig o gofio bod y Dirprwy Weinidog yn awyddus i weld rhagor o weithio ar y cyd.

   Mae'r Pwyllgor yn dal yn ansicr, fodd bynnag, ynghylch yr hyn y mae'r Gweinidogion yn ei wneud i ddefnyddio'u cyllidebau eu hunain yn y dyfodol i hybu ac i fwrw ymlaen â chynlluniau i gydweithredu yn y sector o ran darparu gwasanaethau a threfniadau gweinyddu, y tu hwnt i'r trefniadau presennol i gyfuno cyllidebau.

Gobeithio y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol. Er gwybodaeth, rydym hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog dros Blant a Gwasanaethau Cymdeithasol i'w helpu gyda'u cynlluniau ariannol ar i gael y wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani uchod.

Yn gywir

Mark Drakeford

**Mark Drakeford AC AM**
Cadeirydd – Chair